LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cofnodion Sesiwn Agored

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

29 Medi 2023

Presennol:

Aelodau:

Ashok Ahir (Llywydd a Chadeirydd)	Gronw Percy (Trysorydd)
Andrew Evans (Is-lywydd)	David Hay
Lee Yale-Helms	Lydia Rumsey
Janet Wademan	Hannah Lindsay
Susan Davies	Gwenllian Lansdown Davies
Elaine Treharne	Anwen Jones

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol

Hefyd yn Bresennol:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Emyr Evans	Pennaeth Dros-dro Adran Gyllid
Owen Llywelyn	Pennaeth Dysgu ac Ymgysylltu

Cofnodion:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Sylwedyddion:

Manon Maragakis	Llywodraeth Cymru

1.1 Gair o groeso gan y Cadeirydd, sylwadau agoriadol ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Owen Llywelyn, Pennaeth Dysgu ac Ymgysylltu, oedd yn cynrychioli Rhian Gibson.

Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Quentin Howard a Rhian Gibson.

1.2 Datgan buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Datganodd y staff oedd yn bresennol fuddiant yn eitem 3.11 fel aelodau gweithredol o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

1.3 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2023 a thrafodaeth ar faterion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion 28 Gorffennaf fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd.

Cais arian preifat – cymeradwyodd y Bwrdd y cais i ddefnyddio £30k o arian preifat i ddatblygu tiroedd y Llyfrgell yn ei gyfarfod ar 28 Gorffennaf, ac mae Rich Roberts bellach wedi cychwyn ar y gwaith yma.

Adran 2 Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd

Adroddodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ar y canlynol, nad oedd wedi eu cynnwys yn ei adroddiad;

- bydd y Llywydd ag ef yn cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog ar 9 Hydref ar gyfer eu cyfarfod chwech misol
- ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn ynglŷn ag yswiriant indemniad parthed y sefyllfa iechyd a diogelwch - bydd yn adrodd ymhellach ar hyn ar ôl clywed yn ôl gan Lywodraeth Cymru

Llongyfarchwyd y Llyfrgell ar ei phresenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn enwedig digwyddiadau partneriaeth Deiseb Heddwch a lansio Partneriaeth Strategol Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant. Mynegwyd siom nad oedd mwy o Ymddiriedolwyr yn mynychu ein digwyddiadau a'n gweithgareddau, i gael profi'r gwaith cymunedol ac ymgysylltu sy'n digwydd. Teimlad yr aelodau oedd bod nifer helaeth o wahoddiadau'n cael eu hanfon atynt, ac y byddai'n fuddiol petai mwy o rybudd yn cael ei roi ynglŷn ag amseriad ambell i ddigwyddiad. Cytunwyd i adrodd hyn i Rhian Gibson.

Gofynnwyd i'r Llyfrgell ystyried dewis un o'r gweithiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu harddangos yn yr uwch gyntedd i fod yn rhan o'r casgliad parhaol fel gwaddol prosiect Somalia, a'i arddangos yn gyhoeddus i ddwyn sylw at y prosiect.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Cynllun Dad-dderbyn

Cyflwynwyd papur gan Owain Roberts er gwybodaeth i fynd i'r afael â chais yr Ymddiriedolwyr am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynlluniau i ddefnyddio dad-dderbyn fel modd i liniaru risg o brinder gofod storio, ac i roi gorolwg o holl weithgareddau dad-dderbyn y Llyfrgell ar draws ei holl gasgliadau.

Sefydlwyd Tasglu Dad-dderbyn ym mis Mai 2023, sydd wedi gweithio ar adnabod categorïau o ddeunydd sydd yn addas ar gyfer dad-dderbyn, gwerthuso'r gost a'r ymdrech o ddad-dderbyn y cynnwys, sicrhau trafodaeth ac ystyriaeth drawsadrannol i waith dad-dderbyn gan sicrhau fod y potensial ar gyfer optimeiddio'r gofod presennol hefyd yn cael ei wireddu fel rhan o'r broses.

Yng nghyd-destun gofod storio, gofynnwyd a byddai modd ystyried y broblem o ddiffyg gofod yn y Polisi Derbyn Rhoddion sydd i'w gyflwyno o dan eitem 3.5, trwy gynnwys cymal i ddweud fod y Llyfrgell yn cadw hawl i beidio â derbyn rhoddion o ddeunydd i'r casgliadau. Nodwyd hyn fel pwynt i'w ystyried.

Sicrhawyd yr aelodau bod unrhyw waith dad-dderbyn yn cael ei asesu yn erbyn y polisi dad-dderbyn. Yn dilyn cwestiwn am gadwedigaeth ddigidol, adroddwyd fod cadwedigaeth ddigidol yn faes pwysig ac yn rhan o waith dydd i ddydd y Llyfrgell. Nodwyd fod y maes hwn yn gofyn am sylw parhaus oherwydd cyflymder datblygiadau technolegol. Mae gan y Llyfrgell Bolisi Gofal Casgliadau ac mae cadwedigaeth ddigidol yn eistedd ochr yn ochr â chadwedigaeth ffisegol yn y Polisi hwnnw. Nodwyd fod y Llyfrgell hefyd yn rhan o'r Consortiwm Cadwraeth Ddigidol o ran sicrhau cadwraeth ddigidol at y dyfodol.

Derbyniwyd cais rhyddid gwybodaeth yn ddiweddar gan y BBC ynglŷn ag eitemau oedd ar goll o fewn y Llyfrgell - hyn yng nghyd-destun y colledion mae'r Llyfrgell Brydeinig wedi ei gael. Mae tua 1,200 o eitemau ar wedi eu cam-leoli/coll o fewn y Llyfrgell sy'n ganran fach iawn o'r casgliadau cyfan. Mae'r rhestr yn un byw, ac mae amryw o eitemau sydd arni wedi eu hadfer i'w lleoliad cywir ers ateb y cais rhyddid gwybodaeth.

Mae'r mesurau lliniaru i fynd i'r afael â cholledion yn cynnwys mesurau diogelwch yn yr ystafelloedd darllen, rheoli benthyciadau staff, ac archwiliad o eitemau gwerth uchel. Serch hynny, gofynnwyd a oedd modd gosod eitemau ar goll ar gofrestr risg yr adran gasgliadau.

3.2 Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Lles

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Annwen Isaac; fe'i cyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant, pryd gofynnwyd am ffigyrau cyfartaledd absenoldebau staff.

Nododd Annwen bod cyfartaledd absenoldeb staff yn 3.6 diwrnod, sy'n llai na'r ffigwr cenedlaethol o 7.8 diwrnod, gyda straen a phwysau gwaith yn gyfrifol am ran helaeth o'r absenoldebau.

Roedd yr aelodau yn hapus i gymeradwyo'r adroddiad, a diolchwyd i Annwen am ei baratoi.

3.2.1 Rheoli Risg Asbestos

Diolchwyd i Mark Stevens am baratoi adroddiad ar reoli'r risg o asbestos yn yr adeilad, a hefyd am ei waith diwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf i roi sicrwydd nad oedd RAAC ar safle'r Llyfrgell o gwbl.

3.3 Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Annwen Isaac; roedd yr adroddiad yma hefyd wedi ei gyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant.

Awgrymwyd y dylai'r Llyfrgell ystyried profiadau staff mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywedd a chynhwysiant, ac estyn gwahoddiad i rwydweithiau staff fynychu'r Bwrdd i sôn am unrhyw broblemau maent yn eu hwynebu yn y gweithle. Cytunwyd i ystyried hyn at y dyfodol. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol i'r Llyfrgell ystyried ymuno â Chynllun Achredu Cymhwysedd Diwylliant Diverse Cymru, cynllun sy'n helpu sefydliadau i weithredu arfer da yn y gweithle.

Mewn ymateb i gais os yw hyfforddiant Cymraeg ar gael i Ymddiriedolwyr, nododd Annwen Isaac y dylai unrhyw Ymddiriedolwyr sydd â diddordeb gysylltu gyda hi am wybodaeth bellach.

Roedd canmol i waith y cynllun gwirfoddoli, yn enwedig gan ei fod yn ychwanegu gwerth ychwanegol i waith y Llyfrgell.

Roedd yr aelodau yn hapus i gymeradwyo'r adroddiad, a diolchwyd i Annwen am ei baratoi.

3. 4 Strategaeth Codi Arian – fersiwn diwygiedig

Cyflwynodd Richard Roberts ddrafft diwygiedig o'r strategaeth, sydd bellach yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y 5 amcan. Roedd yr ymddiriedolwyr yn hapus gyda'r ychwanegiad yma, ond am weld gwybodaeth ynglŷn â'r gost o gyflawni'r gwaith a amlinellir yn y strategaeth. Cytunodd Richard Roberts i gynnwys hyn.

Mae Swyddog Grantiau wedi ei benodi bydd yn helpu Richard Roberts gyda'r gwaith o wneud ceisiadau am grantiau i ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn hapus i gymeradwyo'r strategaeth, ar yr amod bod ychwanegiad o gost cyflawni yn cael ei gynnwys.

3.5 Polisi Derbyn Rhoddion a Chyfraniadau

Roedd yr Ymddiriedolwyr yn hapus i gymeradwyo'r polisi a gyflwynwyd gan Richard Roberts, ar yr amod bod y canlynol yn cael ei gynnwys;

- cynnwys y Tîm Gweithredol fel cam rhwng Pennaeth Codi Arian a'r Bwrdd o dan egwyddorion dirprwyo
- cyfeiriad at Bolisi Buddsoddi Cronfeydd Preifat

3.6 Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd (yn ymwneud â chais Cronfa Gwytnwch Covid)

Diolchwyd i Richard Roberts am baratoi papur sy'n rhoi gwell dealltwriaeth i'r Ymddiriedolwyr o'r gwaith ymgysylltu sydd ar y gweill.

Cytunwyd bod angen gwaith pellach yn y maes yma, sy'n cynnwys asesiad o'n cynulleidfaoedd, rhai presennol a rhai potensial, a gofynnwyd i Rhian Gibson, Owen Llywelyn a Rhodri ap Dyfrig drafod ymhellach a chyflwyno cynllun drafft i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

3.7 Cylch Gorchwyl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Cyflwynwyd y cylch gorchwyl gan Glerc y Bwrdd, a nodwyd fod hwn yn un o'r argymhellion yn deillio o adroddiad Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd yn ddiweddar.

Diolchwyd i'r Clerc am ei baratoi, ac fe'i cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr.

3.8 Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol – adolygiad

Yn dilyn cais gan yr Ymddiriedolwyr ym mis Mehefin, drafftiwyd cymal i'w gynnwys yn y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol ar sut mae penderfyniadau rhwng cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cymeryd, pan fo'n rhaid gwneud hynny. Cyflwynwyd cymal i'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant ac argymhellwyd ei gymeradwyo i'r Bwrdd.

Cymeradwywyd y cymal yn amodol ar y newidiadau canlynol i bwynt 8.3(a)

- newid *wyneb yn wyneb* i ddarllen *mewn person,* a *chaffael barn* i *rannu barn*
- ychwanegu brawddeg i ddweud bod ymddiriedolwyr yn cytuno i'w cyfeiriadau e-bost gael eu rhannu ymhlith ei gilydd a chyda staff perthnasol at bwrpas rhannu gwybodaeth a barn, a dod i benderfyniad
- ychwanegu pwynt bwled i egluro sut bydd pleidlais yn cael ei chymeryd

Bydd y Clerc yn cylchredeg fersiwn ddiwygiedig i'r Ymddiriedolwyr yn dilyn y cyfarfod.

3.9 Cynllun Gweithredu – adroddiad Fourth Street

Cyflwynodd Owen Llywelyn adroddiad wedi ei baratoi gan Rhian Gibson oedd yn gosod allan y gwaith sydd ar y gweill yn deillio o adroddiadau Fourth Street a Mather & Co. ac sy'n cynnwys;

- tiroedd y Llyfrgell
- archwiliad llawn i'n harwyddion a pharthau'r lloriau gwahanol
- gwaith mewnol i wella mannau cyhoeddus
- gwelliannau i Pendinas a'r Siop – mae'r Llyfrgell eisoes yn gweithio gydag arbenigwr manwerthu i ddatblygu'r Siop
- ymchwil cynulleidfa

Bydd diweddariad pellach yn cael ei roi i'r Bwrdd ym mis Tachwedd ar y datblygiadau uchod.

3.10 Argymhellion CIPFA

Rhoddwyd diweddariad gan y Trysorydd o'r camau nesaf i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiadau CIPFA a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Llyfrgell.

Yn dilyn y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, mae'r Trysorydd a'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd wedi dod i'r casgliad mai'r ffordd orau ymlaen yw trefnu trafodaeth ford gron ar sefyllfa gyllidol y Llyfrgell a'i chynaliadwyedd ariannol cyn gynted a bo modd gydag uwch reolwyr y Llyfrgell. Yn dilyn hynny, bydd trafodaethau pellach gyda'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau,

Cyfarfu'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ynghyd â phrif weithredwyr eraill gyda Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru ddydd Mawrth diwethaf i drafod y gyllideb. Awgrymwyd bryd hynny y gall cyllideb 2024/2025 fod yr un fath ag eleni, neu 5% neu 10% yn llai. Mae'r Llyfrgell wedi darparu papur i Jason Thomas yn amlinellu'r ardaloedd y medrir edrych arnynt o ran lleihau costau gweithredol, gan gynnwys adolygu'r trefniadau pensiwn.

Os bydd gostyngiad mewn GiA, yna bydd rhaid ailedrych ar y cynllun strategol a'r cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn gweithio o fewn y gyllideb fydd yn cael ei darparu. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y drafodaeth ford gron, a bydd y cynllun strategol yn cael ei adolygu yng ngoleuni canfyddiadau'r trafodaethau hynny, a phapur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

3.11 Cynllun Pensiwn – diweddariad llafar

Wedi ei drafod yn y sesiwn gaeedig; dim pellach i'w adrodd.

Adran 4 Materion Corfforaethol

4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyfrifon Rheoli Awst 2023
Cyflwynwyd cyfrifon rheoli Awst 2023 gan Emyr Evans.

Mae yna gryn dipyn o warged yn erbyn y gyllideb ac mae angen adnabod y byfferau a diweddaru'r gyllideb; mae'r gyllideb fel mae'n aros yn awgrymu ein bod yn gwario llai nag sydd wedi ei gyllidebu, ac mae Emyr Evans yn gweithio ar gysoni'r gwariant yn erbyn y gyllideb.

Nodwyd bod y Tîm Gweithredol o hyn allan yn mynd i ofyn i benaethiaid adrannau allan gyfiawnhau gwariant gan eu staff, a bod angen i geisiadau am wariant gael eu cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol.

4.1.2 Ymrwymiadau'r Cronfeydd Preifat

Cyflwynodd Emyr Evans dabl o ymrwymiadau'r cronfeydd preifat, rhai presennol a gwariant sydd wedi ei wneud yn y gorffennol, gan bwysleisio bod hon yn ddogfen fyw fydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Bydd y drafft yma yn cael ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 17 Hydref.

Diolchwyd i Emyr Evans am baratoi'r ddogfen, y tro cyntaf i'r Bwrdd presennol dderbyn dogfen o'r fath. O hyn allan, bydd hyn yn eitem sefydlog ar agenda bob cyfarfod o'r Bwrdd.

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

4.2.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Dim materion i'w hadrodd.

Adran 5: Adroddiadau gan y Pwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant 14.08.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan gadeirydd y pwyllgor, sef y Llywydd.

Yn sgil y pryder nad oedd adnodd Cyfrifiad 1921 mewn lle amlwg ar wefan y Llyfrgell, mae hyn nawr wedi ei osod mewn lle mwy amlwg. Gofynnwyd i staff ystyried hyrwyddo'r adnodd yma dipyn yn well gan ei fod yn adnodd rhad ac am ddim, a'r unig safle sydd yn ei gynnig tu allan i'r Archifdy Cenedlaethol.

5.2 Cofnodion Drafft Panel Adeiladau 06.09.23

Yn absenoldeb cadeirydd y cyfarfod diwethaf, Quentin Howard, dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau neu sylwadau at Glerc y Bwrdd, fydd yn eu pasio ymlaen at Quentin Howard a Mark Stevens.

Adran 6: Unrhyw Fater Arall

6.1 Penodi Ymddiriedolwyr – diweddariad

Cynhaliwyd cyfweliadau ddechrau mis Medi ac mae enwau wedi eu cyflwyno i'r Dirprwy Weinidog am ei chymeradwyaeth. Apwyntiadau Llywodraeth Cymru yw'r 2 apwyntiad.

6.2 Seminar Gwrth-Dwyll

Cynhelir seminar gwrth-dwyll ar Teams ddydd Gwener 27 Hydref rhwng 11.00 - 1.00. Stephen Tooby, Pennaeth Gwrth-Dwyll Llywodraeth Cymru fydd yn cyflwyno'r seminar.

6.3 Cynllun PhD

Mae'r Llyfrgell yn bartner mewn consortiwm gyda'r AHRC sy'n cyllido 15 PhD dros 3 blynedd, ac mae nifer o geisiadau wedi mynd trwy'r cam "datgan diddordeb" i'r cam nesaf-bydd y rhain yn cael eu datblygu i geisiadau llawn.

6.4 Ymddeoliad

Heddiw, mae Elgar Pugh, Swyddog Cadwraeth, yn ymddeol o'r Llyfrgell ar ôl 52 mlynedd o wasanaeth; estynnwyd croeso i'r Ymddiriedolwyr i ymuno gyda'r staff i ddymuno'n dda i Elgar mewn te ffarwel yn Pendinas.

Cyfarfod nesaf:

Dydd Gwener, 24 Tachwedd am 10.00 yn Ystafell y Cyngor

PWYNTIAU GWEITHREDU YN CODI O GYFARFOD 27.07.23

Eitem ar yr Agenda	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwyliedig
	Rhannu pwyntiau gweithredu yn deillio o weithdy effeithiolrwydd y Bwrdd gydag aelodau'r Bwrdd a'r Clerc	Andrew Evans	✓

PWYNTIAU GWEITHREDU YN CODI O GYFARFOD 29.09.23

Eitem ar yr Agenda	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwyliedig
Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	Trosglwyddo neges i staff cyfarwyddiaeth cyfathrebu ynglŷn ag amlder anfon gwahoddiadau at yr Ymddiriedolwyr	Clerc	✓
Cynllun Dad-dderbyn	Cynnwys *eitemau ar goll* ar gofrestr risg adrannol yr adran gasgliadau	Owain Roberts	✓
Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb	Rhannu gwybodaeth gyda'r Ymddiriedolwyr ynglŷn â chyrsiau dysgu Cymraeg	Annwen Isaac	✓
Strategaeth Codi Arian	Cynnwys cost o gyflawni'r gwaith a amlinellir	Rich Roberts	✓
Polisi Derbyn Rhoddion a Chyfraniadau	a) Cynnwys y Tîm Gweithredol fel cam rhwng Pennaeth Codi Arian a'r bwrdd o dan egwyddorion dirprwyo b)cynnwys cyfeiriad at Bolisi Buddsoddi Cronfeydd Preifat	Rich Roberts	✓
Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd	Trafod ymhellach a chyflwyno gwybodaeth bellach i gyfarfod mis Tachwedd	Rhian Gibson, Rich Roberts a Rhodri ap Dyfrig	✓
Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol	Diwygio'r fframwaith yn unol â'r hyn a nodwyd yn y cofnodion, a'i gylchredeg i'r Ymddiriedolwyr er gwybodaeth	Clerc	✓
Cynllun Gweithredu Fourth Street	Diweddariad pellach ar ddatblygiadau	Rhian Gibson	✓
Argymhellion CIPFA	Cyflwyno papur i'r Bwrdd ar weithredu'r argymhellion	Prif Weithredwr / Trysorydd	✓
Ymrwymiadau'r Cronfeydd Preifat	Sicrhau ei fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau	Clerc	✓